PECYN GWYBODAETH

# ATHRO/ATHRAWES MATHEMATEG LLAWN AMSER A PHARHAOL

# YSGOL BRO PEDR

## CYFLOG: GRADDFA ATHRO




'Ysgol Gydol Oed ble mae pob plentyn yn cyfri'

www.bropedr.ceredigion.sch.uk



# HYSBYSEB

Annwyl Ymgeisydd,


Diolch mawr am ddangos diddordeb mewn swydd addysgu Mathemateg yn Ysgol Bro Pedr.

Ysgol dwyieithog yw Ysgol Bro Pedr a rydym yn ymfalchïo yn y ffaith ein bod yn un o ysgolion cyntaf 3-19 Cymru, ac yn torri tir newydd o ran darparu addysg gydol oed ar gyfer ein disgyblion. Er bod nifer o ddisgyblion yn cychwyn yn yr ysgol yn 3 oed, daw nifer yn ogystal o ysgolion cynradd partner eraill o'r Awdurdod Lleol ac o Awdurdod Lleol Sir Gaerfyrddin. Mae 960 o ddisgyblion ar rôl yr ysgol - 321 o ddisgyblion Meithrin i flwyddyn 6 a 639 o ddisgyblion Blwyddyn 7-13 (sy'n cynnwys 79 o ddisgyblion ym mlwyddyn 12 a 55 o ddisgyblion ym mlwyddyn 13).

Daw 69.4% o ddisgyblion yr ysgol o gartrefi lle na defnyddir y Gymraeg. Mae'r disgyblion yn cael eu ffrydio'n ieithyddol, gyda dosbarthiadau cyfrwng Cymraeg a dosbarthiadau Cymraeg Ail-Iaith ym mlynyddoedd 3-13. Mae'r ysgol wedi mynd trwy ymgynghoriad llwyddiannus yn ddiweddar sy'n golygu bod ein disgyblion Dysgu Sylfaen i gyd yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg yn unig. Ar hyn o bryd, mae 24.5% o'n disgyblion yn hawlio prydiau ysgol am ddim (20.97% o'n disgyblion oed uwchradd a 31.7% o'n disgyblion oed cynradd). Ar hyn o bryd, mae 15 o ddisgyblion sydd mewn gofal yn mynychu ein hysgol ac mae 16 o ddisgyblion yr ysgol yn ofalwyr ifanc. Hefyd, mae 10.1% o'n disgyblion â Saesneg fel Iaith Ychwanegol, sy'n uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'r ganran yn is o fewn yr oed cynradd (9.03%) o'i gymharu â'r oed uwchradd (10.64%). Rydym yn falch iawn o'n cymuned cynhwysol yn Ysgol Bro Pedr a rydym yn darparu'n llwyddiannus ar gyfer ystod lawn o alluoedd a chefndiroedd.

Lleolir Canolfan Y Bont, sef adnodd sirol ar gyfer disgyblion o oed uwchradd ag anghenion amrywiol (ASD, SLD, PMLD, MSI), ar safle'r ysgol. Mae'r ganolfan yn rhan lawn o'r ysgol, ac mae'r disgyblion ar rôl Ysgol Bro Pedr. Yn ogystal, sefydlwyd uned Sgiliau Bywyd sy'n darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion addysgol lled ddwys a disgyblion ymddygiadol bregus a chynigai barhad a dilyniant i rai o ddisgyblion Canolfan y Bont lle'n berthnasol ac ymarferol. Mae yna 11 o ddisgyblion yn mynychu Canolfan Y Bont a 21 o ddisgyblion yn mynychu Sgiliau Bywyd, ar hyn o bryd.

Mae Tîm Arwain Ysgol Bro Pedr yn cynnwys: Pennaeth, Dirprwy Bennaeth, dau Bennaeth Cynorthwyol, Arweinydd Lles ac Arweinydd Cynnydd.






# PROSES YMGEISIO

| | |
|---|---|
| Dyddiad Cau | Dydd Iau, 19eg o Fehefin 2025 |
| Cyfweliadau | Dydd Llun, 23ain o Fehefin 2025 |
| Dyddiad Dechrau | Dydd Llun, 1af o Fedi 2025 |

Mae Diogelu ac Amddiffyn Plant yn flaenoriaethau allweddol i Gyngor Sir Ceredigion. Ein nod yw cefnogi plant a phobl ifanc bregus er mwyn sicrhau eu bod mor ddiogel â phosibl. Mae ein hysgolion wedi ymrwymo i ddiogelu ac amddiffyn pob plentyn, a byddant yn cymryd camau i ddiogelu'u lles a chydnabod eu hawl i gael eu hamddiffyn. Caiff hyn ei gefnogi gan ethos cyffredinol yr holl ysgolion. Bydd angen gwiriad Y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y swydd hon.

Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cwrdd â holl ddisgwyliadau'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth. Mae medrau cyfathrebu rhagorol, yn y Gymraeg a'r Saesneg, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn hanfodol ar gyfer y swydd yma.







# SWYDD DDISGRIFIAD

## TEITL Y SWYDD - ATHRO/ATHRAWES MATHEMATEG
## CYFLOG - GRADDFA CYFLOG ATHRO

Rydym yn awyddus i benodi ymarferydd effeithiol gyda'r ymrwymiad a'r weledigaeth i gyfrannu fel athro/awes yn y maes allweddol hwn yn Ysgol Bro Pedr. Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ffynnu a datblygu fel aelod o dîm yr adran Mathemateg. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn gymwys i addysgu Mathemateg i'r amrediad oedran a gallu llawn yn Ysgol Bro Pedr. Rydym yn chwilio am berson egnïol a blaengar i sicrhau fod y maes hwn yn parhau i ffynnu yn Ysgol Bro Pedr.

### GWYBODAETH A DEALLTWRIAETH BROFFESIYNOL

- Meddu ar y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf am ddyletswyddau a chyfrifoldebau proffesiynol athrawon a'r fframwaith statudol.
- Deall y cyd-destun polisi addysg genedlaethol yng Nghymru a blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg.
- Dangos blaengaredd ac egni wrth weithredu egwyddion Cwricwlwm i Gymru.
- Defnyddio dealltwriaeth o ddisgwyliadau, trefniadaeth ac addysgeg y camau cynnydd fel sail i'r ymarfer a'r cynllunio.
- Deall y ffactorau allweddol sy'n effeithio ar ddysgu a lles plant a phobl ifanc.
- Parhau i gaffael y wybodaeth a'r ddealltwriaeth ddiweddaraf mewn perthynas â phynciau/meysydd cwricwlwm a'r addysgeg berthnasol i'w defnyddio fel sail i'r ymarfer.
- Deall yr angen i wella sgiliau llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol ar draws y cwricwlwm.
- Deall ADY er mwyn bodloni amrywiol anghenion dysgwyr.



# SWYDD DDISGRIFIAD

### DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL ATHRO PWNC:

### BYDD ANGEN I BOB ATHRO:-

- I weithredu a chyflwyno cwricwlwm perthnasol, eang, cytbwys a gwahaniaethol ar gyfer y disgyblion ac i gefnogi'r ardal gwricwlwm penodol / pwnc priodol.
- I fonitro a chefnogi cynnydd a datblygiad y disgyblion fel athro/tiwtor dosbarth.
- I hyrwyddo ac annog profiadau dysgu sy'n rhoi cyfle i'r disgyblion i gyflawni eu potensial personol.
- I gyfrannu at godi safonau a chyrhaeddiad disgyblion.
- I rannu a chefnogi cyfrifoldeb yr ysgol i barhau a monitro cyfleoedd am gynnydd academaidd a phersonol.
- I weithredu cynlluniau ansawdd yr ysgol.

### CWRICWLWM

### CYNLLUNIO, DATBLYGU A HUNAN ARFARNU

- Cyfrannu at Gynllun Datblygu y gyfadran.
- Cynorthwyo gyda datblygiad cynlluniau gwaith, adnoddau, Polisi Adborth a strategaethau dysgu yn ardaloedd trawsgwricwlaidd ac adrannol.
- Cynllunio a pharatoi cyrsiau a gwersi.
- Cynorthwyo arweinwyr yr ysgol drwy baratoi amrediad o amcanion dysgu sy'n cefnogi blaenoriaethau'r ysgol.
- Cynorthwyo yn y broses o ddatblygu cwricwlwm a rheoli newid i sicrhau bod y cyrsiau yn berthnasol i anghenion y disgyblion yn ogystal â'r byrddau arholi a gwobrwyo.
- I adolygu'r dulliau dysgu a rhaglen astudio.
- Cyfrannu i'r broses o fonitro ac arfarnu Cynlluniau Datblygu o fewn cylch hunan-arfarnu, gan gynnwys arfarnu yn erbyn targedau a meincnodau.
- I geisio a gweithredu newidiadau a gwelliant.
- I adolygu'r datblygiadau cwricwlwm, trefnyddiaeth a bugeiliol yr ysgol.



# SWYDD DDISGRIFIAD

## ADDYSGU

- Asesu, recordio ac adrodd ar bresenoldeb, cynnydd, datblygiad a chyrhaeddiad y disgyblion ac i gadw cofnodion yn ôl y galw.
- Paratoi, neu gyfrannu at, asesiadau llafar ac mewn ysgrifen, adroddiadau a geirda sy'n berthnasol i ddisgyblion unigol neu grŵp o ddisgyblion.
- Sicrhau bod yr elfennau trawsgwricwlaidd Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu, Llythrennedd, Rhifedd, Datrys Problemau ac eraill yn cael eu hadlewyrchu ym mhrofiadau dysgu ag addysgu'r disgyblion.
- Ymgymryd â llwyth gwaith dysgu penodol.
- Sicrhau profiadau dysgu o safon uchel ar gyfer y disgyblion sy'n cyrraedd ansawdd disgwyliedig safonau mewnol ac allanol.
- Paratoi ac uwchraddio adnoddau pynciol.
- Defnyddio dulliau dysgu amrywiol fydd yn symbylu'r dysgu ac ateb anghenion y disgyblion a'r cwricwlwm.
- Cynnal disgyblaeth yn ôl cytundeb a phrosesau'r ysgol, ac i annog arfer da gyda phrydlondeb, ymddygiad, safonau gwaith a gwaith cartref.

- Asesu, recordio ac adrodd ar bresenoldeb, cynnydd, datblygiad a chyrhaeddiad y disgyblion ac i gadw cofnodion yn ôl y galw.
- Paratoi, neu gyfrannu at, asesiadau llafar ac mewn ysgrifen, adroddiadau a geirda sy'n berthnasol i ddisgyblion unigol neu grŵp o ddisgyblion.


## ASESU A CHYNNYDD

- Asesu disgyblion ar gais y byrddau arholiad allanol, adran a gofynion ysgol gyfan.
- Marcio, graddio a pharatoi adborth llafar ac ysgrifenedig i ddisgyblion.
- Cadw cofnod priodol a darparu gwybodaeth gyfredol gywir ar gyfer BROMCOM, cofrestru ayyb.
- Cwblhau dogfennau priodol i gynorthwyo'r broses o olrhain cynnydd disgyblion.
- Defnyddio'r data fel gwybodaeth ar gyfer sicrhau cynnydd yn y gweithgareddau dysgu ag addysgu.



# SWYDD DDISGRIFIAD

## Staffio

- Cymryd rhan yn rhaglen datblygu staff yr ysgol er mwyn sicrhau datblygiad proffesiynol.
- Parhau i ddatblygu'n bersonol yn yr ardaloedd a adnabuwyd drwy'r broses hunan arfarnu gan gynnwys gwybodaeth bynciol a dulliau dysgu.
- Gweithredu'r broses Rheoli Perfformiad gydag arddeliad.
- Cyfrannu yn bositif i'r cydweithio effeithio o fewn yr ysgol.

## Cefnogaeth

- Sicrhau defnydd effeithiol /effeithlon o gynorthwywyr dosbarth.
- Cefnogi eich cyd-weithwyr fel aelod o dîm.

## CYFATHREBU

- Cyfathrebu yn effeithiol a chydweithio gyda rhieni.
- Cyfathrebu yn effeithiol o fewn y sefydliad.
- Cymryd rhan mewn Nosweithiau Agored a Chyfarfodydd Rhieni a chydweithio gydag ysgolion lleol.
- Cyfrannu at ddatblygu cysylltiadau pynciol effeithiol ar draws yr ysgol, gydag ysgolion partner ac asiantaethau allanol eraill.

## ADNODDAU DYSGU

- Cyfrannu at y broses o archebu a dosbarthu cyfarpar a defnyddiau.
- Adnabod adnoddau addas a gwneud defnydd effeithiol/effeithlon o'r adnoddau o fewn yr adran ac ar draws y cwricwlwm



# MANYLEB PERSON

| Agwedd Maes | Yn Hanfodol | Yn Ddymunol |
|---|---|---|
| **Addysg a Chymwysterau** | • Athro cymwysedig<br>• Gradd Anrhydedd da mewn maes perthnasol<br>• Tystiolaeth addas o hyfforddiant a datblygiad proffesiynol perthnasol | • Y gallu i ddysgu'r maes perthnasol hyd at Safon Uwch<br>• Gradd Uwch |
| **Profiad Perthnasol** | • Profiad o weithio â disgyblion o bob oed a gallu<br>• Profiad o weithio gydag athrawon eraill i godi safonau cyrhaeddiad disgyblion<br>• Profiadau personol ym maes Mathemateg | • Profiad o ddysgu mewn ysgol uwchradd<br>• Profiad o ddysgu Cwrs Safon Uwch |
| **Gwybodaeth a Sgiliau Cysylltiedig â'r Swydd** | • Gwybodaeth a dealltwriaeth o'r datblygiadau diweddaraf yn eich maes addysgu.<br>• Dealltwriaeth o nodweddion addysgu ardderchog ar draws y cyfnodau allweddol<br>• Athrawes ardderchog sy'n gallu ysbrydoli disgyblion<br>• Sgiliau rhyngbersonol ardderchog<br>• Sgiliau TGCh da iawn a'r gallu i ddefnyddio TGCh i wella dysgu ac addysgu<br>• Gallu i gymell disgyblion i gyflawni eu potensial | |
| **Nodweddion Personol** | • Brwdfrydedd, dyhead ac angerdd at y pwnc ac at ddygsu ac addysgu<br>• Y gallu i weithio'n galed o dan bwysau<br>• Y gallu i drefnu, cynllunio a blaenoriaethu amser yn effeithiol<br>• Ymrwymiad i gyfrannu at fywyd ehangach yr ysgol<br>• Sgiliau cyfathrebu rhagorol, ar lafar ac yn ysgrifenedig yn y Gymraeg a Saesneg<br>• Parodrwydd i herio eraill i gynhyrchu canlyniadau cadarnhaol | |






# EIN PRIF FLAENORIAETHAU 2024-2025

## PRESENOLDEB

Gwella presenoldeb disgyblion gan gynnwys disgyblion sydd o dan anfantais

## PARODRWYDD I DDYSGU

Datblygu gweithdrefnau i hyrwyddo agweddau cadarnhaol at ddysgu er mwyn caniatau cynnydd

## DYSGU AC ADDYSGU

Datblygu model addysgeg effeithiol er mwyn gwreiddo'r diwylliant o her a chefnogaeth uchel

## CYNNYDD

Hyrwyddo cynnydd dysgwyr drwy ddatblygu dulliau effeithiol o asesu ac ymateb i adborth ar draws yr ysgol

## ARWEINYDDIAETH

Cefnogi arweinwyr wrth werthuso gwaith yr ysgol er mwyn adnabod cyfleoedd i symud yr ysgol ymlaen

## LLAIS Y DYSGWR

Gwreiddio llais y dysgwr er mwyn sicrhau dylanwad gref ar ddarpariaeth a phenderfyniadau'r ysgol